



Croeso i Tŷ Pawb – eich Ymweliad Ysgol

Ewch â'ch disgyblion allan o'r ystafell ddosbarth a chael eich ysbrydoli heddiw

Er mwyn sicrhau ymweliad llwyddiannus, darllenwch y daflen hon yn ofalus

Gwybodaeth Hanfodol

Maint y grŵp mwyaf yn yr ystafell ddysgu ac ymgysylltu yw 30 o ddisgyblion

Rhaid i ddisgyblion o dan 18 oed gael eu goruchwylio bob amser. Ni all Tŷ Pawb gymryd cyfrifoldeb gofalu ar ran arweinwyr grwpiau ar unrhyw adeg.

Mae'r cymarebau oedolion i ddisgyblion fel a ganlyn

1:10 ar gyfer rhai o dan 11 oed

1:15 ar gyfer rhai rhwng 11 ac 16 oed

1:20 ar gyfer rhai rhwng 16 ac 20 oed.

Cynllunio eich Ymweliad

Ar ôl archebu, anfonir rhywfaint o wybodaeth a phecyn adnoddau ysgol y gellir ei lawrlwytho at y staff addysgu. Rydym yn fodlon i athro ymweld â Tŷ Pawb cyn i'ch ysgol ymweld â ni, er mwyn dod yn gyfarwydd â chynllun yr oriel a'r gwaith celf sy'n cael ei arddangos, a hefyd i drafod y gweithdy sydd ar gael i'ch grŵp. Bydd asesiad risg ar gael i chi ei ddefnyddio.

Bydd ein pecyn gweithgareddau yn yr oriel yn cynnwys gwybodaeth am yr artistiaid a'u gwaith, yn ogystal â syniadau am weithgareddau ac arddulliau i chi eu defnyddio gyda'ch grŵp, yn yr oriel ac yn ôl yn yr ystafell ddosbarth. Gellir bwyta pecyn bwyd mewn man sydd wrth ymyl yr Ystafell Ddysgu ac Ymgysylltu.

Pan fyddwch yn cyrraedd

Cyrhaeddwch ar yr amser sydd wedi ei archebu ar eich cyfer. Dylai'r athro arweiniol gofrestru wrth y ddesg wybodaeth a chasglu ei fathodyn adnabod fel arweinydd grŵp. Bydd y Swyddog Dysgu yn cwrdd â chi wrth ddesg y dderbynfa.

Mynediad

Mae Tŷ Pawb yn gwbl hygyrch ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn ac mae dolen glyw ar gael. Mae cyfleusterau toiled ar gael. Mae toiled i'r anabl i fyny ac i lawr y grisiau. Mae lifft ar gael. Mae'r ystafell Ddysgu ac Ymgysylltu wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf, a dim ond ymwelwyr yng nghwmni staff gyda cherdyn allwedd a gaiff fynediad iddi am resymau diogelwch.

Os oes gan eich grŵp ofynion mynediad penodol, ffoniwch i'w trafod gyda'n tîm o Gynorthwyr Ymwelwyr ar 01978 292093 neu anfonwch e-bost at ellie.ashby@wrexham.gov.uk

Cyrraedd yma

Tŷ Pawb, Stryt y Farchnad, Wrecsam LL13 8BY Mae lle parcio ym maes parcio'r ganolfan Byd Dŵr ac mae croesfan i gerddwyr ar gyfer mynd i Tŷ Pawb. Mae mynediad i ysgolion drwy fynedfa Stryt y Farchnad a byddwn yn cwrdd wrth y Ddesg Groeso sydd ar y dde i'r fynedfa.

Rheolau'r Oriel

Mae Tŷ Pawb yn lle cyhoeddus prysur, sy'n cyfuno celf, stondinau marchnadoedd a neuadd fwyd. Mae ein rheolau'n sicrhau bod yr holl ymwelwyr yn cael profiad diogel a phleserus ac nad yw'r gwaith celf sy'n cael ei arddangos yn cael ei niweidio. Sicrhewch fod eich grŵp ysgol yn eu darllen.

- Nid yw bwyd a chelf yn gymysgedd da! Peidiwch â dod â bwyd a diod i ardaloedd yr arddangosfeydd.
- Mae ffonau symudol yn amharu ar ymwelwyr eraill – sicrhewch eu bod ar 'silent' yn ardaloedd yr arddangosfeydd.
- Peidiwch â chyffwrdd gwaith celf gan fod hyd yn oed dwylo glân yn achosi niwed. Os gellir cyffwrdd gwaith, bydd arwydd yn nodi hynny'n glir.
- Caniateir tynnu lluniau heb fflach yn Oriel 1 a 2.
- Caniateir braslunio gan ddefnyddio pensiliau caeedig. Ni chaniateir defnyddio siarcol, olew na phastelau sialc, marcwyr parhaol na phaent dŵr neu olew.
- Dylid gadael bagiau, cotiau a pheynnau bwyd yn yr Ystafell Ddysgu ac Ymgysylltu.
- Sicrhewch fod disgyblion yn ymddwyn mewn modd nad yw'n amharu ar fwynhad ymwelwyr eraill. Os bydd grŵp ysgol yn swnllyd neu eu hymddygiad yn annerbyniol, gall y Swyddog Dysgu Ffurfiol ofyn i'r grŵp adael.
- Mae Teledu Cylch Caeedig ar waith drwy'r adeilad